



CYNGOR

COFNODION Y CYFARFOD BLYNYDDOL AML-LEOLIAD A GYNHALIWDYD YN Y SIAMBR, Tŷ PENALLTA A THRWY MICROSOFT TEAMS DDYDD IAU, 11 MAI 2023 AM 5.30PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd E.M. Aldworth – Maer
Y Cynghorydd M.A. Adams – Dirprwy Faer

Y Cynghorwyr:

C. Andrews, A.P. Angel, C. Bishop, A. Broughton-Pettit, M. Chacon-Dawson, R. Chapman, P. Cook, S. Cook, D. Cushing, C. Cuss, D.T. Davies MBE, N. Dix, G. Ead, C. Elsbury, G. Enright, K. Etheridge, M. Evans, A. Farina-Childs, C. Forehead, E. Forehead, J. E. Fussell, N. George, C. Gordon, D. Harse, T. Heron, A. Hussey, D. Ingram-Jones, M.P. James, G. Johnston, J. Jones, S. Kent, A. Leonard, P. Leonard, C.P. Mann, A. McConnell, B. Miles, C. Morgan, S. Morgan, B. Owen, T. Parry, L. Phipps, M. Powell, D.W.R. Preece, H. Pritchard, J. Pritchard, J.A. Pritchard, J. Rao, J. Reed, J. Roberts, J. Sadler, J. Scriven, J. Simmonds, S. Skivens, C. Thomas, L.G. Whittle, S. Williams, W. Williams, J. Winslade ac C. Wright

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr), R. Tranter (Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a'r Amgylchedd), S. Harris (Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol a Swyddog Adran 151), L. Lane (Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Dirprwy Swyddog Monitro), S. Hughes (Swyddog y Gwasanaeth Pwyllgorau), R. Barrett (Cofnodydd)

Hefyd yn bresennol:

Mr P. Brunt (Aelod Lleyg – Pwyllgor Safonau)

TREFNIADAU RECORDIO, FFILMIO A PHLEIDLEISIO

Bu i'r Prif Weithredwr atgoffa'r rheiny a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw, ac y bydd recordiad ohono ar gael ar ôl y cyfarfod ar wefan y Cyngor – [Cliciwch yma i'w wylio](#). Dywedodd y bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud drwy Microsoft Forms.

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Roedd ymddiheuriadau am absenoldeb wedi dod i law gan y Cynghorwyr A. Gair, L. Jeremiah, D. Price, R. Saralis, E. Stenner, J. Taylor, A. Whitcombe a K. Woodland.

2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafodd unrhyw fuddiannau eu datgan ar ddechrau'r cyfarfod nac yn ystod y cyfarfod.

3. SYLWADAU'R MAER SY'N YMDDEOL

Bu i'r Cynghorydd Elizabeth Aldworth a oedd yn ymddeol o fod yn Faer Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ddiolch i'r Aelodau am roi cyfle iddi wasanaethu fel Maer am yr ail dro ac am eu holl gefnogaeth dros y flwyddyn ddiwethaf, rhywbeth yr oedd wedi'i werthfawrogi'n fawr. Dywedodd iddi fod yn fraint ac yn anrhydedd cynrychioli Bwrdeistref Sirol Caerffili fel Maer.

Cyfeiriodd y Maer at ddathliadau a phen-blwyddi unigryw ar draws pob agwedd o fywyd y gymuned, a'r gweithgareddau a digwyddiadau arbennig dirifedi yr oedd wedi bod iddynt yn ystod ei blwyddyn yn y swydd. Cyfeiriodd at y profiadau cofiadwy niferus yr oedd wedi'u cael a'r llu o bobl arbennig o bob cefndir ac o bob rhan o'r gymuned yr oedd wedi cwrdd â nhw, a dywedodd iddi fod yn fraint cwrdd â rhai o bobl ifanc dalentog iawn y Fwrdeistref Sirol a rhai o'i phreswylwyr sy'n ysbrydoliaeth, profiad a fydd yn aros yn ei chof am byth.

Cofnododd y Maer ei diolch i'w Chymar a gŵr, Mike, gan ddweud na fyddai wedi gallu cyflawni ei dyletswyddau fel Maer heb ei gefnogaeth ef.

Bu i'r Maer ddiolch i'r Cynghorydd Mike Adams (y Dirprwy Faer) am ei gefnogaeth ragorol dros y flwyddyn ddiwethaf, a rhoddodd ddiolch arbennig i staff y Swyddfa Ddinesig, Zoe Turk, Joy Thomas a Mark Harris, am eu harweiniad, eu cefnogaeth a'u cymorth.

Bu i'r Maer ddiolch i bawb a oedd wedi cefnogi'r elusen a ddewiswyd ganddi, sef Uned Canser y Fron, gan ddweud bod cyfanswm o oddeutu £2,400 wedi'i godi.

Wrth gloi, bu iddi ddymuno'n dda i'w holynydd dros y flwyddyn i ddod, a dywedodd ei bod yn sicr y bydd pwy bynnag a etholir yn llysgennad teilwng ar ran y Fwrdeistref Sirol.

Bu i'r Aelodau, yn eu tro, ddiolch i'r Cynghorydd Aldworth am y ffordd ragorol yr oedd wedi cyflawni ei dyletswyddau ac am gynrychioli'r Fwrdeistref Sirol yn ddi-fai, a bu iddynt hefyd dalu teyrnged i'r gofal a'r caredigrwydd yr oedd wedi'u dangos yn ystod ei chyfnod yn y swydd.

4. ETHOL MAER Y CYNGOR TAN Y CYFARFOD BLYNYDDOL YM MIS MAI 2024

Cynigiwyd ac eiliwyd y dylid ethol y Cynghorydd Mike Adams yn Faer Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili tan y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai 2024 a, thrwy Microsoft Forms a chadarnhad ar lafar, a chan nodi bod 50 o blaid, dau yn erbyn ac un wedi ymatal, cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Mike Adams yn Faer y Cyngor tan y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai 2024.

5. ETHOL DIRPRWY FAER Y CYNGOR TAN Y CYFARFOD BLYNYDDOL YM MIS MAI 2024

Cynigiwyd ac eiliwyd y dylid ethol y Cynghorydd Julian Simmonds yn Ddirprwy Faer Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili tan y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai 2024 a, thrwy Microsoft Forms a chadarnhad ar lafar, a chan nodi bod 51 o blaid, dim yn erbyn a phedwar wedi ymatal, cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Julian Simmonds yn Ddirprwy Faer y Cyngor tan y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai 2024.

6. CYHOEDDIADAU'R MAER

Bu i'r Cynghorydd Mike Adams ddiolch i'r Aelodau am roi cyfle iddo wasanaethu fel Maer dros y flwyddyn i ddod, a dywedodd ei fod yn destun balchder iddo yntau ei fod wedi ei ethol i'r swydd ddinesig i gynrychioli'r Fwrdeistref Sirol am yr ail dro.

Bu i'r Maer ddiolch i'r Cynghorydd Elizabeth Aldworth am gyflawni ei dyletswydd mewn ffordd haelionus yn ystod ei chyfnod fel Maer, a bu iddo hefyd ddiolch i'w wraig, Gloria, a fydd yn Gymar iddo ac a fydd yn darparu cefnogaeth amhrisiadwy i'w gynorthwyo i gyflawni ei ddyletswyddau.

Roedd y Maer yn edrych ymlaen at y flwyddyn i ddod ac at gwrdd â phreswylwyr a sefydliadau ar draws y Fwrdeistref Sirol sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol yn eu cymunedau.

Bu i'r Maer gadarnhau mai Cymdeithas Cŵn Tywys y Deillion oedd yr elusen yr oedd wedi'i dewis, a bu iddo estyn gwahoddiad i'r holl Aelodau gwrdd â chynrychiolwyr yr elusen a'u cŵn tywys yn syth ar ôl y cyfarfod i gael gwybod mwy am y berthynas bwysig y mae angen i gi tywys a'i bartner ei meithrin i fyw bywyd mwy annibynnol.

Bu i'r Aelodau longyfarch y Cynghorydd Adams a'r Cynghorydd Simmonds ar eu penodiadau, a bu iddynt ddymuno'n dda iddynt ar gyfer y flwyddyn i ddod.

7. NODI PENODIAD ARWEINYDD Y CYNGOR

PENDERFYNWYD nodi bod y Cynghorydd Sean Morgan wedi'i benodi'n Arweinydd y Cyngor.

8. NODI PENODIAD DIRPRWY ARWEINYDD Y CYNGOR

PENDERFYNWYD nodi bod y Cynghorydd James Pritchard wedi'i benodi'n Ddirprwy Arweinydd y Cyngor.

9. NODI NIFER YR AELODAU A BENODWYD I'R CABINET A'R ENWAU YR OEDD YR ARWEINYDD WEDI'U DEWIS I FOD YN AELODAU O'R CABINET

PENDERFYNWYD nodi bod naw aelod wedi'u penodi i'r Cabinet (gan gynnwys yr Arweinydd), ynghyd â'u portffolios:

Y Cynghorydd James Pritchard – y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Ffyniant, Adfywio a Newid yn yr Hinsawdd

Y Cynghorydd Nigel George – yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol, Eiddo a Phrifyrdd

Y Cynghorydd Eluned Stenner – yr Aelod Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad

Y Cynghorydd Carol Andrews – yr Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau

Y Cynghorydd Shayne Cook – yr Aelod Cabinet dros Dai

Y Cynghorydd Elaine Forehead – yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol

Y Cynghorydd Philippa Leonard – yr Aelod Cabinet dros Gynllunio a Diogelu'r Cyhoedd

10. NODI PENODIAD ARWEINYDD PRIF GRŴP YR WRTHBLAID

PENDERFYNWYD nodi bod y Cyngorydd L. Whittle wedi'i benodi'n Arweinydd Prif Grŵp yr Wrthblaid.

11. DATGANIAD YR ARWEINYDD

Dechreuodd Arweinydd y Cyngor ei ddatganiad drwy longyfarch y Maer a'r Dirprwy Faer ar eu penodiadau. Dywedodd ei fod yn sicr y byddant yn llysgenhadon rhagorol ar ran y Fwrdeistref Sirol yn ystod eu blwyddyn yn eu swyddi, a dywedodd ei fod yn edrych ymlaen yn fawr at gydweithio â'r ddau ohonynt. Bu i'r Arweinydd hefyd ddiolch i'r Maer a oedd yn ymddeol am gynrychioli'r Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf mewn ffordd mor fendigedig, ac am ei brwdfrydedd diflino a'i hymroddiad i'r swydd.

Bu i'r Arweinydd gofnodi ei ddiolch i'r Aelodau am barhau i'w gefnogi, a bu iddo hefyd ddiolch i'r Dirprwy Arweinydd a'r Cabinet.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at yr heriau niferus yr oedd yr Awdurdod wedi'u hwynebu yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, gan gynnwys llywio'i ffordd drwy'r argyfwng costau byw sy'n parhau, dod allan o'r pandemig byd-eang, ac wynebu gostyngiad i'r cyllidebau a oedd yn llawer gwaeth na mesurau cyni blaenorol, a dywedodd fod cyfnod ansicr o'u blaenau o hyd. Mae'r heriau hyn yn digwydd ochr yn ochr â'r heriau parhaus y mae'r Cyngor yn eu hwynebu, gan gynnwys y newid yn yr hinsawdd, y rhyfel yn Wcráin, Brexit, a diffyg cymorth gan y llywodraeth ganolog ar gyfer cymunedau sy'n ei chael yn anodd.

Mae'r problemau hyn wedi rhoi pwysau ar adnoddau'r Awdurdod, wedi rhoi prawf ar ei gydnerthedd, ac wedi galw am newidiadau sylweddol i'r sefydliad ei hun, a bu i'r Arweinydd ganmol staff y Cyngor am yr agwedd anhygoel o gadarnhaol y maent bob amser yn ei harddangos. Er gwaethaf y pwysau hwn, mae'r Awdurdod wedi parhau ar ei siwrnai drawsnewid fel 'Tîm Caerffili', a rhoddodd yr Arweinydd sicrwydd personol i'r Aelodau ac i bob un o breswylwyr y Fwrdeistref Sirol y bydd yr Awdurdod yn parhau ar y daith i foderneiddio ac i wella gwasanaethau'r Cyngor, er ei fod yn wynebu cyfyngiadau ariannol sy'n tynhau o hyd.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at ei addewidion blaenorol a oedd yn rhoi ffocws trosfwaol ar gyflawni, gan barhau ar yr un pryd i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen, a chreu cymunedau bywiog a llewyrchus i breswylwyr. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ers tro, gan gynnwys gwaith i greu cyfres o ganolfannau cymunedol, gyda'r ganolfan gyntaf ar fin agor yn Rhymni. Cafodd unedau diwydiannol newydd eu hadeiladu yn Rhymni a Nelson, a gwnaed gwelliannau amrywiol ar gyfer ymwelwyr yng Nghoedwig Cwm-carn. Mae'r rhaglen buddsoddi cyfalaf mewn ysgolion yn parhau i fynd rhagddi, gan gynnwys ehangu Ysgol Trinity Fields, uno Ysgol Iau Llancaeac ac Ysgol Fabanod Llanfabon, a chreu canolfan newydd i ddysgwyr sy'n agored i niwed ym Mhontllan-fraith ac ysgol carbon sero net newydd ym Mhlas-y-felin. Mae'r Cyngor wedi ehangu defnydd cymunedol ar draws pob un o'i ysgolion, gan gynnwys sicrhau bod meysydd chwarae 3G, neuaddau chwaraeon a chyfleusterau eraill ar gael i'r holl breswylwyr eu defnyddio i helpu i wella'u llesiant. Bydd y Cyngor hefyd yn lansio'i Strategaeth Addysg newydd ar 7 Gorffennaf 2023 yn Llancaiach Fawr.

Eleni, cwblhawyd y tai cyngor newydd cyntaf i gael eu hadeiladu ers bron i ugain mlynedd, ac mae canolfan byw bywyd hyn wrthi'n cael ei hadeiladu yn Nhŷ Darran, Rhisga, ynghyd â datblygiad tai cymysg yn Oakdale, a thai newydd yn Rhymni. Mae cynlluniau i adeiladu mwy

o dai cyngor yn yr arfaeth hefyd. Yng nghanol tref Caerffili, mae gwaith wedi dechrau i ddatblygu marchnad newydd yn Park Lane, ac mae cam cyntaf y gwaith i godi Canolfan Lesiant wedi dechrau.

Bu i'r Arweinydd bwysleisio mai dim ond cipolwg oedd hwn ar ychydig o'r gwaith da sy'n digwydd i sicrhau bod Bwrdeistref Sirol Caerffili yn bodloni disgwyliadau ac anghenion preswylwyr, a dywedodd y bydd ef a'r Cabinet yn parhau i gydweithio'n agos â'r Tîm Rheoli Corfforaethol, gan barhau i roi'r rhaglen drawsnewid fewnol a'r mesurau effeithlonrwydd ar waith, a pharhau i fynd i'r afael â dyheadau strategol pwysig at y dyfodol. Bu i'r Arweinydd hefyd ddiolch i'r Undebau Llafur am eu cefnogaeth barhaus, wrth i'r Cyngor drawsnewid a pharhau i weithio mewn ffyrdd newydd sy'n torri tir newydd ac sydd o fudd i'r gweithlu ac i breswylwyr fel ei gilydd.

Bu i'r Arweinydd dynnu sylw at bwysigrwydd cydnabod y cyfyngiadau ariannol sy'n tynhau o hyd a'r angen i reoli adnoddau ac i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau yn unol â'r hyn sydd bwysicaf i'r rhan fwyaf o bobl. Mae'r Cyngor wedi bod yn ymgysylltu â phreswylwyr dros y misoedd diwethaf i sicrhau bod ei flaenoriaethau a'i adnoddau'n canolbwyntio ar yr hyn sydd o'r pwys mwyaf iddyn nhw. Bwriedir cyflwyno'r Cynllun Corfforaethol newydd i'r Cyngor ar 4 Gorffennaf 2023, a bydd yn amlinellu'r blaenoriaethau a'r ymrwymïadau a ganlyn a fydd yn cael eu cyflawni dros gyfnod y weinyddiaeth hon: bydd Tîm Caerffili yn galluogi ein heconomi i dyfu, ein plant i lwyddo, ein preswylwyr i ffynnu, ein cymunedau i fod yn gynhwysol, a'n hamgylchedd i fod yn wyrddach.

Wrth gloi, bu i'r Arweinydd addo y bydd Cyngor Caerffili'n parhau i ganolbwyntio ar gyflawni, gwella a thrawsnewid – gan sicrhau bod y Fwrdeistref Sirol yn lle gwych i fyw, i weithio ac i fwynhau.

ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

Ystyriwyd yr adroddiadau a ganlyn.

12. ADOLYGIAD O GYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL

Ystyriwyd yr adroddiad a oedd yn rhoi manylion yr adolygiad o gydbwysedd gwleidyddol ar draws yr Awdurdod a dyraniad seddi'r pwyllgorau i grwpiau gwleidyddol yn unol ag adran 15 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu cydbwysedd gwleidyddol yr Awdurdod, a gofynnwyd i'r Cyngor nodi'r cydbwysedd gwleidyddol fel y'i hamlinellwyd yn Atodiad 1 o'r adroddiad, ynghyd â dyraniad cyffredinol seddi'r pwyllgorau yn unol â'r cydbwysedd gwleidyddol.

Cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhelliad yn adroddiad y Swyddog. Drwy Microsoft Forms a chadarnhad ar lafar, a chan nodi bod 54 o blaid, tri yn erbyn ac un wedi ymatal, cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD nodi'r cydbwysedd gwleidyddol fel y'i hamlinellwyd yn Atodiad 1 o'r adroddiad, ynghyd â dyraniad cyffredinol seddi'r pwyllgorau yn unol â'r cydbwysedd gwleidyddol.

13. MIREINIO CYFANSODDIAD Y CYNGOR

Ystyriwyd yr adroddiad a oedd yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo nifer o newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor. Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi sut y mae'r sefydliad yn gweithredu, sut y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, a'r gweithdrefnau a ddilynir i

sicrhau bod y penderfyniadau hynny yn effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol i bobl leol. Er bod y gyfraith yn peri iddi fod yn ofynnol i rai o'r gweithdrefnau hyn fod ar waith, gall y Cyngor ddiwygio a mireinio elfennau o'r Cyfansoddiad i sicrhau ei fod yn effeithlon ac yn effeithiol. Roedd yr adroddiad yn ceisio diwygio rhai o'r gweithdrefnau sy'n sail i broses benderfynu'r Cyngor gyda golwg ar wella'r broses ymhellach.

Cyn i'r adroddiad gael ei gyflwyno, bu i un Aelod godi pwynt o drefn a gofyn am i'r adroddiad gael ei dynnu'n ôl, gan dynnu sylw at y ffaith bod yr adroddiad wedi'i ysgrifennu gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol (Mr Richard Edmunds), ac awgrymu o dan Ran 2 o Gyfansoddiad y Cyngor (*Erthygl 15 – Adolygu a Diwygio'r Cyfansoddiad*) mai cyfrifoldeb y Swyddog Monitro yw paratoi unrhyw adroddiad o'r fath sy'n cynnig newidiadau cyfansoddiadol. Rhoddodd Mr Rob Tranter (Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro) sicrwydd bod yr adroddiad yn gywir o safbwynt trefniadol a dywedodd ei fod wedi cyfrannu'n helaeth tuag ato, gan gynnwys cynnal sawl trafodaeth â'r Cyfarwyddwr Corfforaethol ynghylch ei gynnwys. Pe bai'r newidiadau'n cael eu cymeradwyo, byddai Mr Tranter yn diwygio'r Cyfansoddiad yn unol â hynny. Yn sgil sylwadau pellach gan Aelodau, bu i'r Swyddog Monitro bwysleisio i'r Aelodau mai eu Cyfansoddiad nhw yw hwn, mai mater iddyn nhw yw cytuno ar unrhyw newidiadau neu unrhyw eitemau i'w cynnwys ynddo, ac nad yw enw awdur yr adroddiad yn berthnasol yn hyn o beth.

Ar ôl i'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol, Eiddo a Phrifyrdd gyflwyno'r adroddiad, cynigiwyd ac eiliwyd argymhellion yr adroddiad.

Bu i'r Aelodau fynegi'u pryderon ynghylch y newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad. Roedd un Aelod yn siomedig na chafwyd unrhyw ymgynghori ag Arweinwyr Grwpiau'r Wrthblaid ynghylch yr adroddiad. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch y cynnig i leihau nifer y pwyllgorau craffu o bump i dri, ac roedd rhai Aelodau'n teimlo y byddai hyn yn lleihau democratiaeth a gwaith craffu, gan beri iddi fod yn anoddach dwyn y Weithrediaeth i gyfrif, a pheri na fyddai modd i rai Aelodau fod yn aelodau o bwyllgor craffu o gwbl.

Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch cynnydd sylweddol yn llwyth gwaith/amser darllen yr Aelodau hynny a fyddai'n aelodau o'r pwyllgorau newydd, a hynny oherwydd y cynnydd yn nifer yr eitemau a fyddai'n cael eu cyflwyno i'r pwyllgorau hynny. Roedd rhai Aelodau'n pryderu'n benodol ynghylch y cynnig i gyfuno'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg mewn un pwyllgor craffu, gan fod y gwasanaethau hynny'n cyfrif am oddeutu 75% o gyllideb y Cyngor, ac roeddent yn teimlo bod cyfiawnhad dros gael trefniadau ar wahân ar gyfer pwyllgorau craffu'r cyfadranau hyn. Roedd Aelod arall yn teimlo y byddai lleihau nifer y pwyllgorau craffu yn mynd yn groes i'r argymhellion a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru yn 2018.

Gofynnodd un Aelod am i Atodiad 2 (Protocol yr Aelodau ar Ymwneud â Wardiau Eraill) gael ei ddileu o'r adroddiad, gan ddweud y gallai beri gwrthdaro â phreswylwyr ac Aelodau etholedig. Bu iddo hefyd fynegi pryderon ynghylch cynnwys cyfeiriad at y Pwyllgor Safonau fel rhan o'r broses monitro cydymffurfedd o ran achosion o dorri'r protocol hwnnw. Eglurodd Mr Tranter fod protocol newydd yr Aelodau wedi'i gynnwys yng nghynigion yr adroddiad fel enghraifft o arfer da, ond os nad oedd yr Aelodau'n rhannu'r farn honno, ni chât'r protocol hwn ei gynnwys fel rhan o'r newidiadau arfaethedig.

Dywedodd un Aelod fod angen i bob parti weithio gyda'i gilydd a bod angen i Arweinydd y Cyngor ac arweinwyr grwpiau llai o faint gwrdd yn rheolaidd. Yn sgil hyn, bu i'r Arweinydd gadarnhau ei fod yn fwy na bodlon cwrdd ag Arweinwyr y Grwpiau.

Cafwyd trafodaeth hefyd am y cynnig i gyfyngu ar nifer y cwestiynau y gellir eu gofyn ar lafar yng nghyfarfodydd y Cyngor. Roedd rhai Aelodau'n tybio y byddai cyfyngu ar nifer y cwestiynau fel hyn yn annemocrataidd, a gofynnwyd am eglurhad o'r weithdrefn. Mynegwyd pryderon hefyd y byddai'r cynnig hwn yn tanseilio'r broses graffu. Pwysleisiodd Mr Tranter

nod oedd y cynnig ond yn berthnasol i'r cwestiynau a gyflwynir i'r Cyngor Llawn o dan Reolau Gweithdrefnau'r Cyngor, a bu iddo gadarnhau nad oedd y cynnig yn ceisio cyfyngu ar nifer y cwestiynau y gellir eu gofyn yn ystod cyfarfodydd y pwyllgorau craffu. Bu iddo hefyd gadarnhau y byddai modd gofyn hyd at dri chwestiwn ar lafar yng nghyfarfodydd y Cyngor o dan y trefniadau newydd, gyda'r cwestiynau'n cael eu rheoli yn y drefn yr oeddent wedi dod i law, ac y byddai unrhyw gwestiynau dilynol yn cael ymateb ysgrifenedig ar ôl y cyfarfod.

Yn ystod y drafodaeth, atgoffwyd y Cyngor fod nifer o'r Aelodau yn aelodau o nifer o bwyllgorau ac y byddai'r trefniadau newydd yn ysgafnhau'r baich ar yr Aelodau hyn. Byddai nifer y seddi pwyllgor a fyddai ar gael i'r Cyngorwyr hefyd yn cynyddu o 53 i 54 oherwydd byddai maint y pwyllgorau'n cynyddu o 16 i 18 aelod. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai Cydbwyllgor Craffu yn atgyfnerthu'r broses graffu, oherwydd byddai modd i'r Aelodau graffu ar faterion trawsbynciol, fel Cyllid, Perfformiad, Trawsnewid, neu faterion eraill o bwys. O ran llwyth gwaith ac amser darllen, atgoffwyd y Cyngor fod saith o gyfarfodydd y pwyllgorau craffu wedi'u canslo dros y flwyddyn ddiwethaf oherwydd prinder eitemau, ac mai cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu Addysg oedd tri o'r rheiny. Ar ôl tynnu'r adroddiadau trawsbynciol a drafodir gan Bwyllgor Craffu'r holl Aelodau, bydd llai na 2.5 eitem yn cael eu trafod ar gyfartaledd ym mhob un o gyfarfodydd y pwyllgorau craffu, a bydd y trefniadau newydd yn rhoi sylw i argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru y dylid rhoi llai o eitemau ar yr agenda, ond y dylid craffu'n fanylach ar yr eitemau hynny.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant a oedd yn dweud y dylid tynnu'r adroddiad yn ôl ac y dylid cyflwyno adroddiad diwygiedig yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Medi ar ôl ymgysylltu â'r holl Aelodau, ac y dylai pwyllgor craffu ystyried yr adroddiad yn gyntaf.

Gofynnwyd am gyngor gan y Swyddog Monitro, a bu iddo yntau gadarnhau, er mai mater i'r Maer, fel Cadeirydd y cyfarfod, oedd penderfynu a ddyldid pleidleisio ar y gwelliant yn gyntaf, yn ei dyb ef, dylai'r Cyngor bleidleisio ar argymhellion yr adroddiad fel y'u cynigiwyd a'u heiliwyd ac, os oeddent o blaid y gwelliant, yna dylent bleidleisio yn erbyn yr argymhellion. Pe bai'r cynnig yn cael ei wrthod, byddai'n rhaid i'r Swyddogion ailedrych ar y newidiadau arfaethedig a geir yn yr adroddiad er mwyn i'r Aelodau eu hystyried eto.

Ar ôl cynnig ac eilio y dylid cymeradwyo'r argymhellion yn adroddiad y Swyddog, a thrwy Microsoft Forms a chadarnhad ar lafar, a chan nodi bod 38 o blaid, 23 yn erbyn a dim wedi ymatal, cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD:-

- (i) Gostwng nifer y pwyllgorau craffu o bump i dri yn unol â'r confensiynau enwi a nodir ym mharagraff 5.3 o'r adroddiad, gan roi'r trefniadau newydd ar waith ym mis Medi 2023;
- (ii) Mai dim ond un hysbysiad o gynnis y bydd y pwyllgorau craffu yn ei gael fesul cyfarfod;
- (iii) Bod angen i'r pwyllgor craffu perthnasol gefnogi hysbysiad o gynnis er mwyn iddo symud ymlaen i gael ei ystyried gan y Cabinet neu'r Cyngor;
- (iv) Bod nifer y cwestiynau y gellir eu gofyn ar lafar yng nghyfarfodydd y Cyngor yn cael ei gyfyngu i dri;
- (v) Bod protocol yn cael ei gyflwyno ar gyfer Aelodau y gofynnir iddynt gynrychioli preswylwyr tu allan i'w wardiau etholedig eu hunain, fel y nodir yn Atodiad 2;
- (vi) Bod y Pwyllgor Craffu ar Bartneriaethau'n dod i ben, a bod materion cyflenwi lleol yn cael eu dyrannu i'r pwyllgorau craffu perthnasol;

- (vii) Bod sedd Aelod Cyfetholedig Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar y pwyllgor craffu perthnasol sy'n gyfrifol am wasanaethau cymdeithasol yn cael ei dileu;
- (viii) Bod seddi'r Aelod Cyfetholedig sy'n Ddefnyddiwr a'r Aelod Cyfetholedig sy'n Ofalwr ar y pwyllgor craffu perthnasol sy'n gyfrifol am wasanaethau cymdeithasol yn cael eu dileu;
- (ix) Bod y gofyniad am i grwpiau gorchwyl a gorffen weithredu fel is-bwyllgorau ffurfiol yn cael ei ddileu;
- (x) Bod y Panel Cynghori ar Grantiau i'r Sector Gwirfoddol yn dod i ben a bod y swyddogaethau sy'n weddill yn trosglwyddo i'r Pwyllgor Cyswllt â'r Sector Gwirfoddol a fydd yn cwrdd fel Is-bwyllgor Cyswllt â'r Sector Gwirfoddol gyda Chynghorwyr Bwrdeistref Sirol Caerffili yn unig yn aelodau ohono;
- (xi) Nodi y cytunir ar gylch gorchwyl newydd yng nghyfarfod nesaf yr Is-bwyllgor Cyswllt â'r Sector Gwirfoddol i roi'r swyddogaethau newydd ar waith;
- (xii) Bod Gweithgor Iechyd a Diogelwch yn disodli'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch;
- (xiii) Bod y newidiadau i'r Cynllun Dirprwyo, fel y'u nodir yn Atodiad 3 o'r adroddiad, yn cael eu cymeradwyo;
- (xiv) Bod Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro yn cael ei awdurdodi i ddiwygio'r Cyfansoddiad yn unol â hynny.

Ar ôl i'r bleidlais ar yr eitem hon ddod i ben, bu i'r Cynghorwyr A.P. Angel, C. Bishop, D. Cushing, N. Dix, G. Ead, G. Enright, C. Elsbury, K. Etheridge, A. Farina-Childs, M.P. James, J.E. Fussell, J. Jones, S. Kent, C.P. Mann, B. Owen, T. Parry, H. Pritchard, J.A. Pritchard, J. Reed, J. Roberts, J. Scriven, S. Skivens ac L.G. Whittle adael y cyfarfod mewn protest.

Bu i'r Swyddog Monitro gadarnhau bod cworwm yn parhau.

14. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2023/24 – CYFLOGAU A LWFANSAU

Ystyriwyd yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Cyngor am gyhoeddiad Adroddiad Blynyddol 2023/24 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a oedd wedi'i atodi yn Atodiad 1 o adroddiad y Swyddog.

Roedd yr adroddiad hefyd yn gofyn i'r Cyngor benderfynu pa swyddi ddylai gael taliadau uwch gyflog, pennu swyddi a chyflogau dinesig, a phenderfynu ar faterion atodol eraill, fel y'u nodwyd yn argymhellion yr adroddiad.

Cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhellion yn adroddiad y Swyddog. Drwy Microsoft Forms a chadarnhad ar lafar, a chan nodi bod 38 o blaid, dim yn erbyn a dim wedi ymatal, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD:-

- (i) Nodi dyfarniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol fel y'u nodir yn Adroddiad Blynyddol 2023/24;
- (ii) Cadarnhau y bydd uwch gyflog yn cael ei dalu ar gyfer y swyddi a ganlyn:

Arweinydd y Cyngor
Y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Ffyniant, Adfywio a Newid yn yr Hinsawdd
Yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol, Eiddo a Phrifyrdd
Yr Aelod Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad
Yr Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau
Yr Aelod Cabinet dros Dai
Yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol
Yr Aelod Cabinet dros Gynllunio a Diogelu'r Cyhoedd
Yr Aelod Cabinet dros Wastraff, Hamdden a Mannau Gwyrdd
Arweinydd Grŵp Mwyaf yr Wrthblaid
Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau
Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg
Cadeirydd Pwyllgor Craffu yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Tai ac Adfywio
Cadeirydd Pwyllgor Craffu'r Gwasanaethau Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu a Hapchwarae/y Pwyllgor Tacsia a Chyffredinol
Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio

Nodwyd y bydd nifer cadeiryddion y pwyllgorau craffu yn lleihau o bump i dri ym mis Medi 2023;

- (iii) Y bydd y Maer a'r Dirprwy Faer a benodwyd yn cael taliad cyflog dinesig;
- (iv) Na fydd Aelod Llywyddol yn cael ei benodi;
- (v) Bod y Rhestr o Daliadau Cydnabyddiaeth a geir yn Atodiad 2 o'r adroddiad yn cael eu nodi, ac A) i barhau â'r cap ar daliadau ar gyfer aelodau cyfetholedig o 12 diwrnod llawn y flwyddyn ar gyfer pob pwyllgor y gallai unigolyn fod wedi'i gyfethol iddo ac y mae'n gymwys i fynd iddo, a B) bod parhad y dyletswyddau cymeradwy a nodir yn Atodlen 2 yn cael ei nodi;
- (vi) Bod y gofynion cyhoeddusrwydd a nodir yn adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol ac ym mharagraff 5.10 yn cael eu nodi.

15. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU

Croesawodd y Maer Mr Peter Brunt i'r cyfarfod.

Bu i Mr Brunt, yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, gyflwyno Adroddiad Blynyddol cyntaf y Pwyllgor Safonau. Mae paratoi'r adroddiad hwn yn un o ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sy'n berthnasol i bob un o gynghorau Cymru, ac mae'n rhoi adroddiad am gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad.

Nodwyd bod yr adroddiad yn cynnwys mewnbwn gan dri Arweinydd Grwpiau'r Pleidiau a oedd wedi darparu gwybodaeth am hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad ac am gydymffurfedd aelodau eu grwpiau â'r Cod hwnnw.

Yn ystod 2022/23, bu i'r Ombwdsmon ystyried chwe chŵyn yn erbyn Cynghorwyr o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili o ran y Cod Ymddygiad. Nid oedd angen ymchwilio i bedwar o'r cwynion hynny, ac mae dwy gŵyn yn parhau i fod yn destun ymchwiliadau gan y Pwyllgor Safonau. Roedd y Pwyllgor Safonau wedi'i galonogi'n fawr gan lefelau cydymffurfedd da cynghorwyr ar draws y Fwrdeistref Sirol â'r Cod Ymddygiad yn ystod 2022/23, ac roedd yn mawr obeithio y bydd hyn yn parhau.

Bu i'r Aelodau ddiolch i Mr Brunt am ei holl waith i baratoi'r adroddiad.

PENDERFYNWYD nodi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau.

16. PENODI CADEIRYDD, IS-GADEIRYDD AC AELODAU'R PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU YN UNOL Â'R CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL AR GYFER Y FLWYDDYN I DDOD

Cynigiwyd ac eiliwyd y dylid penodi Cadeiryddion, Is-gadeiryddion ac Aelodau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn unol â'r cydbwysedd gwleidyddol ac yn dechrau o fis Medi 2023, a thrwy Microsoft Forms a chadarnhad ar lafar, a chan nodi bod 37 o blaid, dim yn erbyn a dim wedi ymatal, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD:-

- (i) Penodi un o aelodau Grŵp Plaid Cymru yn Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol, penodi'r Cynghorydd B. Miles yn Is-gadeirydd, a rhoi enwau'r Cynghorwyr a benodir i'r Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r Gwasanaethau Democraidd.
- (ii) Penodi'r Cynghorydd G. Johnston yn Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Corfforaethol ac Adfywio, penodi'r Cynghorydd A. McConnell yn Is-gadeirydd, a rhoi enwau'r Cynghorwyr a benodir i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Corfforaethol ac Adfywio i'r Gwasanaethau Democraidd.
- (iii) Penodi'r Cynghorydd A. Whitcombe yn Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Tai a'r Amgylchedd, penodi'r Cynghorydd S. Williams yn Is-gadeirydd, a rhoi enwau'r Cynghorwyr a benodir i'r Pwyllgor Craffu Tai a'r Amgylchedd i'r Gwasanaethau Democraidd.

17. PENODI CADEIRYDD ANEU IS-GADEIRYDD AC AELODAU'R PWYLLGORAU A GANLYN AR GYFER Y FLWYDDYN I DDOD (YN UNOL Â'R CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL)

Cynigiwyd ac eiliwyd y dylid penodi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion (yn ôl yr angen) ac Aelodau'r pwyllgorau a ganlyn ar gyfer y flwyddyn i ddod yn unol â'r cydbwysedd gwleidyddol, a thrwy Microsoft Forms a chadarnhad ar lafar, a chan nodi bod 38 o blaid, dim yn erbyn a dim wedi ymatal, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD:-

- (i) Penodi'r Cynghorydd B. Miles yn Gadeirydd y Panel Apêl, penodi'r Cynghorydd W. Williams yn Is-gadeirydd, a phenodi'r Cynghorwyr G. Enright a B. Miles, ynghyd â'r dirprwyon enwebedig, y Cynghorwyr M. Adams, T. Parry a D.W.R. Preece, i'r Panel Apêl.
- (ii) Penodi'r Cynghorydd E.M. Aldworth yn Gadeirydd y Panel Penodiadau, penodi'r Cynghorydd J. Sadler yn Is-gadeirydd, a phenodi'r Cynghorwyr N. George, E. Stenner, A. Whitcombe, C. Mann, J. Taylor, K. Etheridge, a'r Aelod Cabinet perthnasol, ynghyd â'r dirprwyon enwebedig, y Cynghorwyr A. McConnell, P. Cook a J. Scriven, i'r Panel Penodiadau.
- (iii) Nodi bod rhaid i Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod yn Aelod Lleyg ac y bydd yn cael ei benodi yn y cyfarfod cyntaf ar ôl Cyfarfod Blynyddol

y Cyngor, a phenderfynu penodi'r Cynghorwyr M. Adams, E.M. Aldworth, A. Broughton-Pettit, M. Chacon-Dawson, P. Cook, G. Enright a J. Taylor i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

- (iv) Penodi'r Cynghorydd M. James yn Gadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd, penodi'r Cynghorydd L. Phipps yn Is-gadeirydd, a phenodi'r Cynghorwyr D. T. Davies, G. Ead, A. Farina-Childs, C. Forehead, A. Hussey, L. Jeremiah, C. Mann, A. McConnell, D. Price, J. A. Pritchard, J. Sadler, C. Thomas, A. Whitcombe a J. Winslade i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd.
- (v) Penodi'r Cynghorwyr A. Adams, E. M. Aldworth, A. Angel, D.T. Davies, C. Gordon, J. Taylor ac A. Whitcombe, ynghyd â'r dirprwyon enwebedig, y Cynghorwyr G. Enright, D. Harse ac W. Williams, i'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu.
- (vi) Penodi'r Cynghorydd W. Williams yn Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu a Hapchwarae/y Pwyllgor Tacsï a Chyffredinol, penodi'r Cynghorydd S. Williams yn Is-gadeirydd, a phenodi'r Cynghorwyr E.M. Aldworth, D. Cushing, P. Cook, G. Ead, C. Gordon, D. Harse, T. Heron, J. Jones, D. Price, D.W.R. Preece, J. Scriven, J. Roberts ac M. Adams i'r Pwyllgor Trwyddedu a Hapchwarae/y Pwyllgor Tacsï a Chyffredinol.
- (vii) Penodi'r Cynghorydd R. Saralis yn Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio, penodi'r Cynghorydd E.M. Aldworth yn Is-gadeirydd, a phenodi'r Cynghorwyr M. Adams, A. Angel, R. Chapman, N. Dix, G. Ead, J. Fussell, A. Hussey, B. Miles, M. Powell, J. Taylor, S. Williams, A. Whitcombe a K. Woodland i'r Pwyllgor Cynllunio.
- (viii) Nodi bod rhaid i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau fod yn Aelodau Lleyg ac y byddant yn cael eu penodi yn y cyfarfod cyntaf ar ôl Cyfarfod Blyneddol y Cyngor, a phenderfynu penodi'r Cynghorwyr D. Price a J. Taylor, ynghyd â'r dirprwyon enwebedig, y Cynghorwyr P. Cook a J. Scriven, i'r Pwyllgor Safonau.
- (ix) Penodi'r Cynghorwyr N. George, P. Leonard, C. Morgan, E. Stenner a J. Pritchard i Bwyllgor y Cabinet ar Hawliau Tramwy.

18. CYFANSODDI IS-BWYLLGORAU/GWEITHGORAU/PANELI/BYRDDAU A PHENODI AELODAU I WASANAETHU ARNYNT AM Y FLWYDDYN I DDOD YN UNOL Â'R CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL

Cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cyfansoddi Is-bwyllgorau/Gweithgorau/Paneli/Byrddau ac y dylid penodi Aelodau i wasanaethu arnynt am y flwyddyn i ddod yn unol â'r cydbwysedd gwleidyddol, a thrwy Microsoft Forms a chadarnhad ar lafar, a chan nodi bod 38 o blaid, dim yn erbyn a dim wedi ymatal, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD:-

- (i) Penodi'r Cynghorwyr M. Adams, C. Andrews (Aelod Cabinet), M. Chacon-Dawson, B. Miles, M. James, J. Roberts ac A. Whitcombe, ynghyd â'r dirprwyon enwebedig, y Cynghorwyr T. Parry, J. Taylor, C. Wright ac A. Gair, i wasanaethu ar y Panel Cynghori ar Benodi a Diswyddo Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol.

- (ii) Penodi'r Cynghorydd P. Leonard i wasanaethu ar Grŵp Cyflawni Diogelwch Cymunedol Caerffili.
- (iii) Penodi'r Cynghorydd C. Morgan i wasanaethu ar Fforwm Mynediad Lleol Caerffili.
- (iv) Penodi'r Cynghorwyr A. Angel, P. Cook, A. Gair, T. Heron, A. Hussey, D. Ingram-Jones, N. George, C. Gordon, L. Jeremiah, A. McConnell, T. Parry, J.A. Pritchard, C. Thomas, L. Whittle a J. Winslade i wasanaethu ar yr Is-bwyllgor Cyswllt â Chynghorau Cymuned.
- (v) Penodi'r Cynghorwyr S. Morgan, J. Pritchard, C. Andrews, S. Cook, E. Forehead, P. Leonard, J. Simmonds, C. Morgan, E. Stenner, N. George i wasanaethu ar y Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Corfforaethol.
- (vi) Penodi'r Cynghorydd E. Stenner, ynghyd â'r dirprwy enwebedig, y Cynghorydd E. Forehead, i wasanaethu ar Fwrdd y Gwasanaeth Cyflawni Addysg.
- (vii) Penodi'r Cynghorwyr B. Miles ac A. Whitcombe i wasanaethu ar Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Gwasanaeth Cyflawni Addysg.
- (viii) Penodi'r Cynghorwyr D.W.R. Preece ac A. Whitcombe (Abercarn), J. Simmonds (Crosskeys), K. Woodland (Crymlyn), N. George, P. Leonard, A. Leonard (Dwyrain Rhisga), Bob Owen, Ceri Wright (Gorllewin Rhisga), a'r Aelod Cabinet C. Morgan (yr Aelod Cabinet dros Wastraff, Hamdden a Mannau Agored) – Dirprwy Enwebedig: y Cynghorydd C. Thomas (Crymlyn) – Drwy wahoddiad: y Cynghorwyr A. Hussey, L. Jeremiah a G. Johnston (materion sy'n ymwneud â ward Trecelyn) i wasanaethu ar Weithgor Crymlyn – Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu.
- (ix) Penodi'r Cynghorwyr P. Cook, G. Enright, C. Gordon, B. Miles, M. Powell, D.W.R. Preece, J. Scriven, W. Williams, a'r Aelod Cabinet priodol, ynghyd â'r dirprwyon enwebedig, y Cynghorwyr M. Adams ac E.M. Aldworth, i wasanaethu ar y Pwyllgor Pensiynau/lawndal.
- (x) Penodi'r Cynghorwyr C. Elsbury ac A. Hussey i wasanaethu ar Banel Craffu ar y Cyd y Prosiect Gwyrdd.
- (xi) Penodi'r Cynghorwyr C. Morgan, D. Harse ac S. Kent i wasanaethu ar Dasglu Afon Rhymini.
- (xii) Penodi Cadeiryddion, Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu, Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (Aelod Lleyg) i wasanaethu ar y Pwyllgor Craffu ar y Grŵp Arweinyddiaeth.
- (xiii) Penodi'r Cynghorwyr E.M. Aldworth, M. Chacon-Dawson, B. Miles, T. Parry, J. Taylor (Cadeirydd) ac A. Whitcombe i wasanaethu ar y Pwyllgor Cynghori Sefydlog ar Addysg Grefyddol.
- (xiv) Penodi'r Cynghorwyr P. Cook, R. Chapman, C. Gordon, J. Fussell, T. Parry, D.W.R. Preece, D. Price, H. Pritchard, T. Heron, E. Stenner, S. Williams, W. Williams, M. Chacon-Dawson, L. Whittle a J. Jones i wasanaethu ar y Pwyllgor Cyswllt â'r Sector Gwirfoddol/yr Is-bwyllgor Cyswllt â'r Sector Gwirfoddol.

19. PENODI/ENWEBU CYNRYCHIOLWYR I WASANAETHU AR GYRFF ALLANOL LLE BO ANGEN

Cynigiwyd ac eiliwyd y dylid penodi/enwebu Aelodau i wasanaethu ar gyrff allanol lle bo angen a, a thrwy Microsoft Forms a chadarnhad ar lafar, a chan nodi bod 38 o blaid, dim yn erbyn a dim wedi ymatal, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD penodi/enwebu'r Aelodau a ganlyn i wasanaethu ar gyrff allanol:

Cronfa Les y Fyddin – Gwent

Y Cynghorydd T. Heron

Pwyllgor Rhanbarthol Cymru y Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cyhoeddus

Y Cynghorwyr S. Cook, N. George ac C. Morgan

Panel Maethu Caerffili

Y Cynghorydd B. Miles

Y Grŵp Lleihau Carbon

Y Cynghorydd J. Pritchard

Cyd-bwyllgor Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (Cabinet Rhanbarthol)

Arweinydd y Cyngor a Dirprwy Arweinydd y Cyngor – y Cynghorydd S. Morgan a'r Cynghorydd J. Pritchard

Cyd-bwyllgor Craffu Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Y Cynghorydd (Pwyllgor Craffu Tai a'r Amgylchedd) a'r Cynghorydd C. Elsbury

Gofal a Thrwsio – Caerffili

Y Cynghorydd S. Cook a Rheolwr Tai'r Sector Preifat

Bwrdd Ymddiriedolwyr Cyngor ar Bopeth

Y Cynghorydd N. George

Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Gwent (Partneriaeth Gymunedol Crosskeys)

Y Cynghorydd C. Andrews

Coleg Harlech a Chymdeithas Addysg y Gweithwyr (Gogledd)

Y Cynghorydd C. Andrews

Corfforaeth Coleg y Cymoedd (Bwrdd Llywodraethwyr Coleg Ystrad Mynach yn flaenorol)

Sian Farquharson, Cynghorydd Her y Gwasanaeth Cyflawni Addysg

Y Grŵp Rhianta Corfforaethol

Y Cynghorwyr E. Forehead, C. Andrews, sedd Plaid Cymru (Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol), C. Bishop, B. Miles (Aelod o'r Panel Maethu)

Y Grŵp Diogelu Corfforaethol

Y Cynghorwyr C. Andrews ac E. Forehead, sedd Plaid Cymru (Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol) ac C. Bishop, T. Heron, Swydd Wag (Annibynnol)

Meysydd Chwarae Cymru (y Gymdeithas Genedlaethol Meysydd Chwarae yn flaenorol)

Y Cynghorydd C. Morgan

Cyd-bwyllgor Archifdy Morgannwg

Y Cyngorwyr C. Andrews a J. Simmonds

Cyd-bwyllgor Amlosgi Gwent Fwyaf – dau aelod

Y Cyngorwyr J. Simmonds a J. Taylor

Groundwork Cymru

S. Williams

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent

Swyddog perthnasol a'r Cynghorydd C. Andrews

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent

Y Cynghorydd E. Forehead

Cyd-bwyllgor Archifdy Gwent – dau aelod

Y Cyngorwyr C. Andrews a J. Simmonds

Panel Heddlu a Throseddu Gwent – cydbwysedd gwleidyddol ar draws Gwent

Y Cyngorwyr C. Forehead, M. Chacon-Dawson, C. Mann

Cyd-bwyllgor Craffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent

Y Cyngorwyr A. Angel ac S. Williams

Y Gynghair Cymunedau Diwydiannol (Ymgyrch Cymunedau'r Meysydd Glo yn flaenorol)

Y Cynghorydd E. Stenner

Bwrdd Rheoli Clwb Bowlio Dan Do Islwyn

Y Cyngorwyr M. Adams ac C. Morgan

Cyd-gyngor Cymru

Y Cyngorwyr N. George ac E. Stenner

Y Ganolfan Ddysgu (Uned Cyfeirio Disgyblion)

Y Cynghorydd M. Evans

Gweithredu gan Awdurdodau Lleol dros Dde Affrica (LACTSA)

Y Cynghorydd N. George

Y Gymdeithas Llywodraeth Leol

Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd S. Morgan, a'r Cynghorydd J. Pritchard, a dau Aelod o'r Cabinet

Grŵp Llywio ar y Cyd Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu (Partneriaeth Adfywio Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu yn flaenorol)

Y Cyngorwyr J. Simmonds, C. Morgan (y Cynghorydd A. Whitcombe)

Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy

Y Cynghorydd C. Andrews

PATROL (Rheoliadau Parcio a Thraffig Tu Allan i Lundain) – Cyd-bwyllgor Dyfarnu

Y Cynghorydd N. George

Panel Budd Cymunedol Fferm Wynt Pen Bryn Oer

Aelod Ward Twyn Carno – y Cynghorydd C. Cuss

Y Pwyllgor Cyswllt Menter Cyllid Preifat (PFI)

Yr Aelod Cabinet dros Addysg a Chyflawni – y Cynghorydd C. Andrews

Cyd-bwyllgor y Prosiect Gwyrdd

Y Cynghorwyr C. Morgan a J. Pritchard

Datganiad Technegol Rhanbarthol (Agregau)

Y Cynghorydd N. George

Yr Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol

Y Cynghorydd S. Morgan

Cymdeithas Lluoedd Arfog Wrth Gefn a Chadetiaid Cymru

Y Cynghorydd T. Heron

Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerffili Saffach

Y Cynghorydd P. Leonard

Y Fforwm Derbyniadau Ysgolion

Yr Aelod Cabinet dros Ddysgu a Hamdden – y Cynghorydd C. Andrews

Y Fforwm Cyllidebau Ysgolion

Y Cynghorwyr E. Stenner ac C. Andrews

Grŵp Amgylchedd Ardal y De-ddwyrain

Y Cynghorydd C. Morgan

Grŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru

Y Cynghorydd P. Leonard

Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

Y Cynghorwyr C. Wright, A. Hussey, C. Elsbury

Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru

Y Cynghorydd C. Morgan

Panel Cist Gymunedol Sportlot

Y Cynghorwyr A. Gair, C. Thomas ac W. Williams

Sant Ioan Cymru

Y Cynghorydd C. Andrews

Y Panel Cynllunio Strategol

Y Cynghorydd P. Leonard

Y Comisiwn Trefol (y Gymdeithas Llywodraeth Leol)

Y Cynghorydd N. George

Fforwm Parth Di-niwclear Cymru a Phrydain

Y Cynghorydd C. Forehead

Cyngor Cymru i Bobl Fyddar

Y Cynghorydd A. Gair

Cyngor Llyfrau Cymru (tair blynedd) a Phwyllgor Gwaith Cyngor Llyfrau Cymru (blwyddyn)

Y Cyngorydd N. George

Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru

Y Cyngorydd P. Leonard

Cronfa Eglwysi Cymru

Y Cyngorydd E. Stenner, a'r Cyngorydd N. George yn ddirprwy

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Arweinydd y Cyngor, y Cyngorydd S. Morgan, a'r Cyngorydd J. Pritchard, a dau Aelod o'r Cabinet

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Bwrdd Gweithredol

Arweinydd y Cyngor – S. Morgan

Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC)

Y Cyngorydd C. Andrews

Cymdeithas Addysg y Gweithwyr – Pwyllgor Ardal De Cymru

Y Cyngorydd C. Forehead

Daeth y cyfarfod i ben am 7.22pm.

Cymeradwywyd fel cofnod cywir ac, yn ddibynnol ar unrhyw newidiadau neu gywiriadau y cytunwyd arnynt ac a gofnodwyd yng nghofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf 2023, fe'u llofnodwyd gan y Maer.

Y MAER